OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2021 Rhif 194 (Cy. 45)

PLEIDIAU GWLEIDYDDOL, CYMRU

Gorchymyn Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2020 (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2021

Gwnaed - - - - 24 Chwefror 2021

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 3 o Atodlen 8 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000(**1**) ("Deddf 2000"), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn(**2**).

Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi llunio Cod Ymarfer drafft ac yn unol â pharagraff 3(2) o Atodlen 8 i Ddeddf 2000 wedi ei gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo ganddynt.

Mae Gweinidogion Cymru wedi cymeradwyo'r Cod Ymarfer drafft ac yn unol â pharagraff 3(4) o Atodlen 8 i Ddeddf 2000, gosodwyd drafft o God Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2020 gerbron y Senedd ar 18 Rhagfyr 2020.

Yn unol â pharagraff 3(6) o Atodlen 8 i Ddeddf 2000, o fewn cyfnod o 40 niwrnod, ni phenderfynodd y Senedd beidio â chymeradwyo Cod Ymarfer drafft Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2020, a dyroddwyd y cod ar ffurf y drafft.

Enwi a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2020 (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2021.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Cod Ymarfer" yw Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2020, y gosodwyd drafft ohono gerbron y Senedd ar 18 Rhagfyr 2020.

Y Diwrnod Penodedig

2. Y diwrnod penodedig i'r Cod Ymarfer ddod i rym yw 25 Chwefror 2021.

(**1**) 2000 p. 41.
(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, o ran Cymru, i Weinidogion Cymru gan Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018 (O.S. 2018/644).

Julie James
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

24 Chwefror 2021

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu 25 Chwefror 2021 fel y diwrnod y daw Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2020 i rym ("y Cod").

Lluniodd y Comisiwn Etholiadol y Cod yn unol â pharagraff 3(1) o Atodlen 8 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 ("Deddf 2000") ac mae Gweinidogion Cymru wedi cymeradwyo'r Cod drafft, a osodwyd gerbron y Senedd ar 18 Rhagfyr 2020.

Mae'r Cod wedi ei ddyroddi gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 7(a) o Atodlen 8 i Ddeddf 2000 a chaiff y Cod ei gyhoeddi gan y Comisiwn Etholiadol o dan baragraff 7 o Atodlen 8 i Ddeddf 2000.